***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 176

# Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

## Rhan 3

### Penderfyniadau ar Wrthwynebiadau ac Effaith Penderfyniadau

**Cyhoeddi penderfyniadau**

**9.**—(1) Rhaid cyhoeddi penderfyniadau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r rhesymau drostynt o dan adran 90(7)—

(a) drwy hysbysu'n ysgrifenedig y partïon i'r gwrthwynebiad a'r holl gyrff eraill yr oedd yn ofynnol i'r awdurdod derbyn ymgynghori â hwy o dan adran 89(2), neu y byddai wedi bod yn ofynnol iddo, heblaw am adran 89(2A), ymgynghori â hwy ynghylch y trefniadau derbyn arfaethedig; a

(b) yn achos penderfyniad ar wrthwynebiad yn ymwneud â—

(i) trefniadau derbyn sydd eisoes yn bodoli o fewn ystyr rheoliad 7(2), neu

(ii) nifer derbyn sy'n is na'r nifer derbyn a nodir

(pa un a gyfeiriwyd gwrthwynebiadau o'r fath gan riant ai peidio) drwy gyhoeddi'r wybodaeth ym mharagraff (2) o'r rheoliad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.gwybodaeth.cymru.gov.uk o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y rhoddwyd y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

(2) Yr wybodaeth i'w chyhoeddi o dan is-baragraff (1)(b) yw—

(a) enw'r awdurdod derbyn a'r ysgol (os yw'n wahanol) y mae'r trefniadau dethol yn gymwys iddynt; a

(b) disgrifiad byr o'r penderfyniad a'r rhesymau drosto.

**Cyfyngu ar wrthwynebiadau diweddarach**

**10.**—(1) Pan fo gwrthwynebiad ynghylch trefniadau derbyn ysgol benodol ar gyfer blwyddyn ysgol benodol wedi'i benderfynu gan y Cynulliad Cenedlaethol ni chaniateir cyfeirio unrhyw wrthwynebiad dilynol (gan y person neu'r corff a wnaeth y gwrthwynebiad neu gan unrhyw un arall) ynghylch—

(a) y trefniadau hynny; neu

(b) trefniadau'r ysgol honno ar gyfer y flwyddyn ysgol ganlynol,

a hwnnw'n wrthwynebiad sy'n codi'r un mater neu fater sy'n sylweddol yr un fath.

(2) Nid yw paragraff (1)(b) yn rwystro gwrthwynebiad rhag cael ei gyfeirio ynghylch trefniadau ysgol—

(a) pan fo'r penderfyniad a grybwyllir ym mharagraff (1) wedi cadarnhau gwrthwynebiad i drefniadau derbyn yr ysgol; a

(b) pan mai sylwedd y gwrthwynebiad y ceisir yn awr ei gyfeirio yw bod trefniadau derbyn yr ysgol, a benderfynwyd gan yr awdurdod derbyn ar gyfer y flwyddyn ysgol ganlynol, i'r graddau y maent yn berthnasol, yr un fath â'r rhai y cyfeiriwyd y gwrthwynebiad cynharach yn eu herbyn neu'n sylweddol yr un fath â hwy.

**Pŵer i newid trefniadau yn sgil penderfynu gwrthwynebiad**

**11.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan—

(a) bydd y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud penderfyniad sy'n cadarnhau, i unrhyw raddau, wrthwynebiad i drefniadau derbyn a benderfynwyd gan awdurdod derbyn; a

(b) bydd yn rhesymol i awdurdod derbyn perthnasol fod o'r farn bod y trefniadau y mae wedi eu penderfynu, i'r graddau y mae'n berthnasol—

(i) yr un fath â'r trefniadau hynny; neu

(ii) yn ddigon tebyg i'r un penderfyniad fod wedi'i wneud yn eu herbyn pe bai gwrthwynebiad wedi'i wneud.

(2) Mewn achos pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, caiff yr awdurdod derbyn perthnasol adolygu ei drefniadau derbyn drwy wneud y newidiadau hynny sydd, ym marn resymol yr awdurdod, yn angenrheidiol er mwyn bod yn gyson â'r penderfyniad, a chaiff benderfynu ei drefniadau ar y ffurf honno sy'n ffurf wedi'i hadolygu.

(3) Ni chaniateir gwneud penderfyniad o'r fath ond—

(a) os gwneir trefniadau o'r fath o fewn deufis i'r dyddiad y rhoddwyd hysbysiad o'r penderfyniad a'r rhesymau drosto yn unol â rheoliad 9(1)(a); a

(b) os yw'r awdurdod derbyn perthnasol wedi hysbysu pob corff derbyn yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori ag ef o dan adran 89(2) ynghylch y trefniadau derbyn y mae'n yn ceisio'u hadolygu o dan y rheoliad hwn, neu y byddai, heblaw am adran 89(2A), wedi bod yn ofynnol iddo ymgynghori ag ef.

(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "awdurdod derbyn perthnasol" ("*relevant admission authority*") yw awdurdod derbyn yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori o dan adran 89(2) â'r awdurdod derbyn y gwnaed y penderfyniad yn ei erbyn, neu y byddai wedi bod yn ofynnol iddo, heblaw am adran 89(2A), ymgynghori â'r awdurdod derbyn y gwnaed y penderfyniad yn ei erbyn, a hynny cyn iddo benderfynu'r trefniadau derbyn y mae'n dymuno eu hadolygu.